Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin yr Wyddgrug

**Ty`r Clwb**

**Rhodfa`r Parc**

**Yr Wyddgrug**

**Sir Ddinbych**

**CH7 1RY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin yr Wyddgrug mewn canolfan gymunedol yn yr Wyddrug, Gogledd Cymru. Mae`n defnyddio neuadd fawr gyda chegin a thoiledau gerllaw. Ceir mynedfa i`r neuadd drwy gyntedd sy`n darparu lle ar gyfer hysbysfwrdd sy`n rhoi gwybodaeth i`r rhieni am y Cylch.

Symudodd y Cylch i`w leoliad presennol ym Medi 2010 ar ôl cael ei leoli`n flaenorol mewn adeilad capel yn yr Wyddgrug. Ynghyd â newidiadau i`r staff cefnogi, dyma`r newidiadau mwyaf diweddar. Mae`r Cylch yn leoliad cyfrwng Cymraeg sy`n gysylltiedig â Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae`r Cylch wedi`i gofrestru ar gyfer derbyn i fyny at 32 o blant. Ar hyn o bryd, mae 30 ar y gofrestr, mae 14 yn dair oed ac ariennir pob un ohonynt. Daw`r plant i`r Cylch o 2½ oed gan ddechrau`r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed. Mae`r Cylch ar agor am bedwar bore`r wythnos (nid Dydd Iau) o 9.15 – 11.15 yn ystod tymor yr ysgol.

Lleolir y Cylch mewn rhan breswyl o`r Wyddgrug ac yn agos i ardal gymuned yn gyntaf. Ar y cyfan, nid yw`r ardal yn un o dan fantais nac anfantais economiadd gymdeithasol, ond mae ychydig o`r plant yn byw yn yr ardal sydd wedi`i dynodi`n ardal gymuned yn gyntaf. Nid oes yr un plentyn ar hyn o bryd o gefndir ethnig lleiafrifol a daw bron pob un o`r plant o gartrefi lle siaredir Saesneg. Mae`r Cylch yn adrodd bod llawer o`r rhieni yn gwneud ymdrechion clodwiw i ddysgu`r iaith Gymraeg. Mewn rhai achosion, efallai bod un rhiant yn medru`r Gymraeg. Mae`r Cylch wedi croesawu plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae`r rhain, yn y gorffennol, wedi eu cefnogi`n dda gan derbyn cefnogaeth 1:1 a derbyn cymorth gan asiantaethau allanol. Nid oes yr un plentyn ar y gofrestr ar hyn o bryd wedi`i nodi ag ADY, fodd bynnag, mae`r staff yn wyliadwrus o hyd. Mae`r Cylch yn elwa`n sylweddol o`r gefnogaeth mae`n ei derbyn gan athrawes gynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae`r Cylch wedi`i adnabod fel “Cylch Rhagorol” gan Fudiad Ysgolion Meithrin. Arolygwyd y Cylch ddiwethaf gan AGGCC ym mis Gorffennaf 2009. Nid oedd unrhyw argymhellion mawr. Nid yw`r Cylch wedi`i arolygu gan AGGCC yn ei leoliad presennol. Dyma`r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

- Mae`r holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da yn unol â`u

mannau cychwyn.

- Mae gallu`r holl blant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu`n dda mewn perthynas â`u cefndir.
- Mae gan yr holl blant agwedd dda ac maen nhw`n ymddwyn yn dda.
- Mae gan y rhan fwyaf o`r plant ddealltwriaeth sy`n datblygu o sut i gadw`n iach ac mae pob un yn teimlo`n ddiogel.
- Mae`r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y Cylch ac yn ffurfio perthynas dda.
- Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iaith Gymraeg y plant yn dda.
- Mae gan yr oedolion ddisgwyliadau uchel o`r plant a chaiff yr rhain eu gwireddu`n ymarferol.
- Mae`r Cylch yn gwneud darpariaeth dda iawn ar gyfer iechyd a lles y plant.
- Mae gan y Cylch ethos dda sy`n hyrwyddo cyfartaledd o ran cyfleoedd.
- Mae`r staff yn cyd-weithio`n dda ar gyfer lles y plant.

**Rhagolygon gwella**

- Mae gan y Cylch hanes da o wella gan ei fod wedi symud lleoliad.
- Mae`r staff yn ymrwymedig i ddarparu`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant.
- Mae cynlluniau mewn llaw i wella`n ymhellach ac mae`r rhain yn realistig.
- Mae`r arweinyddiaeth yn barod i dderbyn cyngor ac mae`r Cylch wedi elwa o gyngor tebyg yn y gorffennol.
- Mae`r rhieni yn gefnogol iawn o`r Cylch.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 adolygu cynllunio`r cwricwlwm fel bod yr addysgu a`r dysgu yn adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant;

A2 mireinio`r gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad o fedrau`r plant a`r cam nesaf yn eu dysgu a defnyddio`r wybodaeth hon yn y cynllunio;

A3 ymestyn rôl yr arweinyddiaeth i gefnogi staff newydd ymhellach;

A4 datblygu a gosod offer yn yr ardal tu allan er mwyn ymestyn profiadau`r plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y Cylch.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ymhob maes dysgu o`u man cychwyn. Mae`r plant yn gweithio`n ddiwyd ac yn cymryd rhan lawn yn eu tasgau. Mae ganddynt yr hunan hyder i wneud dewisiadau ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau`n dda ar eu tasgau.

Mae gan yr holl blant fedrau cyfathrebu da. Maen nhw`n gwarando`n dda ac yn awyddus i ateb cwestiynau. Mae ganddynt eirfa dda. Mae`r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae`r rhan fwayf yn eu dal yn gywir. Mae`r holl blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu. Agwedd dda ac arwyddocaol o fedrau cyfathrebu`r plant yw eu gallu cynyddol yn yr iaith Gymraeg. Maen nhw`n deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ond yn deall ac ymateb i gyfarwyddiadau yn yr iaith Gymraeg. Mae llawer o blant yn ail adrodd geiriau ac ymadroddion Cymreig ac mae pob un yn ymuno mewn caneuon actol a rhigymau yn y Gymraeg. Drwyddi draw, mae hyn yn gynnydd da o ystyried cefndir y plant.

Mae`r holl blant yn dablygu`u gallu mathemategol – maen nhw`n defnyddio iaith fathemategol fel llawn a gwag, ac mae`r rhan fwyaf o`r plant yn matsio, cyfrif a didoli gwrthrychau.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu`r plant yn datblygu drwy gemau cyfrifiadurol a`r defnydd o degan rhaglenadwy. (Beebot.)

Drwyddi draw, mae medrau sylfaenol ac allweddol plant yn y meysydd cwricwlaidd eraill yn dda, gan gynnwys eu medrau creadigol a chorfforol.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth briodol o sut i gadw`n iach gan adnabod bwydydd iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol egnïol. Mae`r plant yn dangos eu bod yn teimlo`n ddiogel ac yn hamddenol yn y Cylch.

Mae`r holl blant yn dangos diddordeb clodwiw yn y gweithgareddau a osodir iddynt ac yn anaml, os o gwbwl, roedd plentyn yn gwneud dim. Mae`r plant yn dangos agweddau da, yn ymddwyn yn dda ac yn parchu ei gilydd a`r staff.

Mae`r holl blant, ar y cyfan, yn hapus i ddewis eu gweithgareddau ac yn hapus i weithio ar y cyd.

Mae`r Cylch yn gweithio`n dda fel cymuned lle mae plant yn cydweithredu`n dda ac yn gallu gwneud penderfyniadau am fywyd yn y Cylch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r holl blant yn cymryd rhan yn weithredol yn y gweithgareddau a osodir iddynt, ac mae`r profiadau dysgu ar y cyfan yn cyfeirio`n dda at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio`n darparu digon o wybodaeth i gefnogi`r holl staff er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeath a medrau cyfredol y plant.

Mae`r gweithgareddau wedi`u cynllunio`n da i alluogi`r plant i ffurfio perthynas dda ac i ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae`r datblygiad o fedrau corfforol a chreadigol y plant yn cael pwyslais da ac mae`r plant yn deall yr angen i ofalu am bethau byw.

Mae`r holl staff yn mantesio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau`r plant yn enwedig eu medrau ieithyddol. Caiff cyfleoedd da eu darparu i`r staff weithio gyda grwpiau o blant, gan gwestiynu a thrafod eu gwaith, er mwyn datblygu eu medrau meddwl. Nid yw`r cynllunio, fodd bynnag, yn canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygiad cydlynol o`r medrau ar draws yr holl feysydd dysgu.

Caiff y Cwricwlwm Cymreig bwyslais da. Drwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi, mae`r plant yn caffael dealltwriaeth o draddodiadau a dathliadau diwylliant Cymru. Llai datblygiedig yw gwybodaeth y plant o ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill yn y byd.

**Addysgu: Da**

Mae`r staff yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae gan y staff hŷn wybodaeth gyfoes o ddatblygiad plant. Maent yn disgwyl llawer gan bob un o`r plant a chaiff hyn ei wireddu ar y cyfan yn ymarferol.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan ymarferwyr a thrwy gymorth gweithredol y staff, caiff anghenion y plant eu rheoli`n hyblyg. Mae`r staff yn fodelau iaith da iawn a chaiff hyn effaith arwyddocaol ar ddatblygiad iaith y plant. Mae`r plant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg sy`n profi`n llwyddiannus yn natblygiad eu medrau ieithyddol. Drwy ddeialog a chwestiynau mae`r plant yn cael eu herio yn enwedig yn eu defnydd o`r iaith. Mae`r staff yn ymyrryd yn briodol yng ngweithgareddau`r plant ac yn gwybod eu rolau, er rhywfaint yn llai clir am ddatblygiad medrau plant unigol a phenodol.

Caiff yr holl blant eu hasesu`n rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi ar lyfrau cofnod unigol y plant. Mae`r cofnodion hyn yn fesur da o gynnydd y plant ym meysydd dysgu`r Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai achosion, mae`r cofnodion yn wrthrychol ac yn fanwl sy`n hyrwyddo`r addysgu i ganolbwyntio ar y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Mewn rhai achosion fodd bynnag, mae`r cofnodion yn rhy ddisgrifiadol a chyffredinol.

Mae`r rhieni yn adrodd eu bod yn ymwybodol iawn o gynnydd eu plant a`r hyn y gallant ei wneud i`w helpu i wella, yn enwedig yn nhermau datblygiad iaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a sicrhau iechyd a lles y plant gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae gwaith a gweithgareddau`r Cylch o ddydd i ddydd yn darparu`r plant â fframwaith ymddygiad dda. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a`r gallu i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir yn cael eu datblygu`n dda iawn. Mae`r plant yn cael eu parchu a chaiff hyn ei dderbyn a`i roi, mae`r plant yn cymryd ac yn derbyn cyfrifoldeb ac yn dangos blaengaredd. Mae`r plant yn ymwybodol o`r rhai yn y gymuned sy`n gofalu amdanynt fel diffoddwyr tân a`r heddlu.

Mae`r Cylch yn medru derbyn a chefnogi plant ag anghenion addysgol ychwanegol (ADY) a gwneir defnydd da o wasanaethau proffesiynol i`w cefnogi. Mae`r plant yma wedi cael mynediad llawn i bob maes dysgu a chynhwysir rhieni yn llawn bob tro.

Mae`r trefniadau diogelu yn dda. Mae`r polisïau a`r gweithdrefnau ar waith a`r arweinydd yw`r aelod staff hŷn sydd â`r cyfrifoldeb o ddelio â materion diogelu plant a threfniadau diogelu. Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r Cylch yn gynhwysol gydag ethos hapus a chadarnhaol. Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i`w hanghenion penodol. Mae gan yr holl blant fynediad cyfartal i`r cwricwlwm ac yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae agwedd oddefgar yn treiddio drwy`r Cylch ac mae`r plant yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Er nad oes yr un plentyn yn y cohort cyfredol wedi`i nodi ag unrhyw ffurf o anabledd, mae`r staff yn sensitif i`r angen i fod yn wyliadwrus. Ni fyddai`r un plentyn o dan anfantais pe bai angen anghenion dysgu ychwanegol arno/arni ac mae`r Cylch yn addas iawn ar gyfer ymdopi â phlant ag anabledd corfforol.

Mae gweithdrefn gwyno gyda`r Cylch ond nid oes unrhyw gwynion wedi eu derbyn.

Mae digon o staff yn cael eu cyflogi gyda chymorth ychwanegol hefyd ar brydiau gan rieni sydd ar y pwyllgor rheoli. Mae gan y staff gymwysterau priodol ac mae gan y ddwy aelod staff sefydlog brofiad hir o weithio gyda phlant. Mae dau aelod newydd o staff wedi`u hapwyntio yn ddiweddar.

Mae`r adnoddau`n ddigonol ac yn addas i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant.

Mae gan y Cylch ddefnydd o neuadd fawr sy`n cael eu gosod ag ardaloedd o weithgareddau sy`n adlewyrchu athroniaeth targedau`r Cyfnod Sylfaen. Mae`n dioddef o orfod clirio adnoddau i ffwrdd o`r neuadd amlbwrpas hon ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae`r adeilad yn cynnig gofod da ac fe`i defnyddir yn effeithiol. Nid oes ardal tu allan sy`n addas i`r plant i ymestyn eu dysgu.

Fodd bynnag, mae cynlluniau ar waith i ddatblygu ardal tu allan i ymestyn profiadau`r plant. Mae`r Cylch yn defnyddio`r amgylchedd lleol i gyfoethogi`r cyfleusterau presennol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Dros y blynydoedd diweddar, mae`r arweinyddiaeth wedi ymdopi`n llwyddiannus gyda`r anawsterau amlwg o symud y Cylch a chael darpariaeth sydd ag adnoddau addas i`r plant. Mae hyn wedi`i gyflawni`n llwyddiannus ond ar yr un pryd collwyd staff sefydlog. Mae hyn wedi tarfu ar yr hyn oedd unwaith yn dîm gyda phrofiad o gydweithio a defnyddio cryfderau`u gilydd, rhannu gwerthoedd a grŵp oedd yn cyfrannu at gynllunio strategol.

Ar hyn o bryd, nid yw`r arweinyddiaeth yn darparu digon o ganllawiau a strwythur ar gyfer pob sesiwn er mwyn caniatau i`r holl staff fod yn gwbl ymwybodol o`u rolau ac i wneud y gorau o gyfleoedd dysgu`r plant. Tra bod gweithgareddau yn canolbwyntio`n dda ar ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen, nid yw`r cynllunio`n ddigon manwl ac nid yw`r rolau`n ddigon clir er mwyn sicrhau cyflymdra da a threfn sefydlog. Nid oes cyfieirad clir i`r gwaith a gall sesiynau unigol golli synnwyr o bwrpas.

Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol o`r Cylch ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae`r rhain yn gyfraniadau gwerthfawr. Mae`r newid mewn staff bob blwyddyn ,fodd bynnag, yn tarfu ar barhad o flwyddyn i flwyddyn a phob blwyddyn rhaid i bwyllgor rheoli newydd ymgyfarwyddo â`r ffordd mae`r Cylch yn gweithio, ei nodau a`i amcanion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r arweinyddiaeth yn dod yn gyfarwydd â`r lleoliad newydd. Mae cryfyderau a meysydd i`w datblygu wedi eu nodi ac mae cynlluniau ar waith i wneud gwelliannau. Mae diwylliant cadarnhaol yn treiddio drwy`r Cylch ac mae`r hunanarfanu wedi`i selio`n gadarn ar wella darpariaeth i`r plant. Mae`r arweinwyr wedi dangos eu bod yn gallu gwella`r ddarpariaeth a gwneud y defnydd gorau o gyngor proffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae rhieni yn gefnogol iawn o`r Cylch ac yn werthfarwogol iawn o`r cynnydd mae eu plant yn wneud wrth ddysgu`r iaith Gymraeg. Maen nhw`n gwerthfawrogi hefyd y ffordd mae`r Cylch yn datblygu medrau personol a chymdeithasol y plant. Mae`r staff ar gael bob amser i drafod yn anffurfiol ac mae`r rhieni yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae gan y Cylch gysylltiadau cryf gyda`r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg lle mae bron pob un o`r plant yn mynd. Mae hyn yn hyrwyddo trosgwlyddiad y plant. Mae`r berthynas dda a chryf sy`n bodoli gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cyfoethogi gwaith y Cylch a cheir cysylltiadau da rhwng yr arbenigwyr perthnasol. Caiff cysylltiadau â`r gymuned eu defnyddio`n effeithiol i gefnogi dysgu`r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r adnoddau yn cael eu rheoli`n dda er bod amgylchiadau yn golygu bod rhaid eu storio ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, mae`r staff yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio`n effeithiol i gefnogi`r dysgu. Mae prynu adnoddau yn cael ei gysylltu`n uniongyrchol â gofynion yr addysgu.

Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i’r holiadur i rieni

Dim ond un holiadur cafodd ei ddychwelyd erbyn y dyddiad a nodwyd. Roedd e`n gwbl ffafriol.

Roedd trafodaethau gyda rheini a gofalwyr yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau cefnogaeth lawn y rhieni o`r Cylch ac yn nodi eu boddhad â`r cynnydd sy`n cael ei wneud gan y plant, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg a`u datblygiad personol. Roedd rhieni yn fodlon â`r wybodaeth maen nhw`n ei derbyn o`r Cylch am eu plant ac yn ogystal yn gwerthfawrogi`r cysylltiad sydd gyda nhw â`r staff.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae`r holl blant yn hapus yn y Cylch ac mae pob un yn cymryd rhan yn awyddus yn y gweithgareddau a osodir iddynt. Mewn sgwrs, dywedodd y plant eu bod yn cael hwyl yn enwedig wrth chwarae gyda ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)